

**Anerchiad gan Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr  
Cymru, yng nghyfarfod o Rwydwaith Cyfiawnder Cymru yn Eisteddfod  
Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016**

Eleni, wrth i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ddathlu 40 mlynedd ers ei sefydlu, rwy'n falch iawn o gael ymuno â chi yma ar faes yr Eisteddfod ardderchog hon yn y Fenni i dynnu sylw at un o'r partneriaethau allweddol sydd gan y Gymdeithas, sef ein perthynas agos ag Uned Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM er lles a budd defnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd a'r triwlynlysoedd.

Mae'n berthynas sy'n mynd yn ôl flynyddoedd, ond rydw i am ganolbwyntio ar yr hyn sydd wedi digwydd ers 2007, pan oedd Hywel [Hughes, Pennaeth Gwasanaeth Gymraeg a Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltiad Staff] a minnau'n eitha newydd yn ein swyddi.

Ddiwedd 2007 cafodd y Gymdeithas lythyr gan y Barnwr Eleri Rees, Barnwr Cyswllt y Gymraeg ar y pryd. Ynndo ysgrifennodd,

“Credaf fod penderfyniad Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru i gyflwyno trefn arholi ar gyfer cyfieithwyr ar y pryd, rhyw ddwy flynedd yn ôl, wedi bod yn benderfyniad pwysig o ran sefydlu system o achrediad proffesiynol i gyfieithwyr ac i sicrhau cysondeb mewn safon. Yn dilyn hyn, penderfyniad eithaf hawdd oedd i ni fel gwasanaeth i newid ein polisi (o Ebrill 2008 ymlaen) i ddewis cyfieithwyr ar y pryd i gyfieithu mewn achosion llys oddi ar restr y Gymdeithas o'r rhai sydd wedi llwyddo yn ei harholiadau.”

Fe ofynnwyd i ni hefyd gynnal prawf cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg at ddibenion cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd yn unig – dim ond i'r Saesneg y cynhelir prawf cyfieithu ar y pryd y Gymdeithas ar hyn o bryd.

Roedd y llythyr hwnnw'n gam pwysig ac arwyddocaol wrth sicrhau y câi ansawdd cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd ei ddiogelu, y byddai cysondeb yn safon y cyfieithu ar y pryd hwnnw gan y byddai'n seiliedig ar safonau uchaf y proffesiwn, ac y câi hawliau unigolion eu gwarchod.

Yn 2013, roeddem yn falch iawn o allu cyfrannu at y drafodaeth fewnol yn GLITEM a arweiniodd at sefydlu gweithdrefn newydd i sicrhau gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd Cymraeg/Saesneg ar gyfer achosion llys a thriwlynlysoedd lle'r oedd gofyniad

ieithyddol Cymraeg wedi'i nodi. O ganlyniad, lluniwyd gweithdrefn newydd a roddai gyfarwyddyd clir i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ynghylch llogi gwasanaeth cyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg cymwys gan sicrhau hefyd fod y cyfieithwyr yn cael yr holl wybodaeth berthnasol am yr achos ymlaen llaw. Roedd y broses honno'n enghraifft wych o'r cydweithio rhwng y ddau broffesiwn.

Ymlaen â ni, felly, i 2015, a bwriad y Gymdeithas i sefydlu trefn ar gyfer cydnabod Meysydd Arbenigedd Proffesiynol ei haelodau Cyflawn a Chyfieithu ar y pryd.

Roedd dewis y maes arbenigedd cyntaf yn un eitha rhwydd – Cyfieithu ar y pryd yn y Llysoedd.

Wrth ddewis y maes arbenigedd hwnnw, gwelem gyfle i gryfhau rhagor ar swyddogaeth bwysig cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd a'r holl drefniadau a fu mewn grym ers mis Ebrill 2008, yn ogystal â chryfhau statws cyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg proffesiynol yn y llysoedd a rhoi bri ar yr alwedigaeth.

Fe ddylwn nodi yn fan hyn fod y trefniadau ar gyfer llogi cyfieithydd ar y pryd Cymraeg/Saesneg ar gyfer achos llys yn wahanol i'r un ar gyfer sicrhau cyfieithydd ar y pryd ar gyfer parau eraill o ieithoedd. Ystyriaeth bwysig gennym oedd y ffaith fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Llundain wedi dechrau gweithio ar adnewyddu ei gytundeb fframwaith ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd. Doedden ni ddim am weld y drefn gadarn oedd wedi'i sefydlu ar gyfer y Gymraeg yng Nghymru yn cael ei llyncu'n rhan o gytundeb enfawr yr oedd, ac y mae, cryn anffodlonrwydd yn ei gylch ymhlith cyfieithwyr a'r cymdeithasau ac undebau sy'n cynrychioli cyfieithwyr.

Y prif faen prawf wrth i ni gydnabod maes arbenigedd proffesiynol ein haelodau cyfieithu ar y pryd fel hyn fydd profiad pob un wrth gyfieithu ar y pryd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Fel rhan o'r drefn newydd hon byddwn hefyd yn mynd ati i drefnu seminar blynyddol i gyfieithwyr a gweithwyr llys a fydd yn gyfle i drafod materion sy'n peri pryder ac i'r ddwy ochr gael deall anghenion y naill a'r llall yn well. Ac er mwyn cyflwyno cyfieithwyr newydd i waith y llysoedd a'r tribiwnlysoedd byddwn yn mynd ati i lunio rhaglen iddynt allu ymgyfarwyddo â gweithdrefnau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Caiff hyn oll ei wneud, wrth gwrs, mewn cydweithrediad agos ag Uned Iaith Gymraeg GLITEM.

Mae'r datblygiad diweddaraf hwn gan y Gymdeithas yn cysylltu'n uniongyrchol â llythyr y Barnwr Eleri Rees yn 2007. Bydd yn cryfhau'r neges glir a gafwyd yn y llythyr hwnnw fod y safonau proffesiynol a arddelir ac a hybir gan y Gymdeithas yn bwysig yn llysoedd a thriwlynlysoedd Cymru. Bydd yn rhoi sicrwydd i bob un sy'n rhan uniongyrchol o'r drefn o weinyddu cyfiawnder, a'r cyhoedd yn gyffredinol, fod cyfieithwyr ar y pryd cymwys ar gael i wneud y gwaith ac y gellir ymddiried ynddyn nhw.

Wrth gloi, ga' i bwysleisio mai nod Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw gwneud yn siŵr y bydd y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg/Saesneg a geir yn llysoedd a thriwlynlysoedd Cymru yn un o'r radd flaenaf. Rwy'n ffyddiog fod y cydweithio agos rhwng y Gymdeithas ac Uned Iaith Gymraeg GLITEM yn mynd i sicrhau y bydd hynny'n digwydd am flynyddoedd i ddod.